## EDGAR W. PARRY a'i WELSH BOTANOLOGY

# Y ddau ysgogiad mawr

*'WELSH BOTANOLOGY'* gan Hugh Davies, Rheithor Abergwyngregin, a gyhoeddwyd yn 1823. Mae yn llyfr eithaf prin erbyn hyn a'i bris yn mynd yn uwch ac yn uwch bob tro y gwelir un ar werth yn *Y Casglwr*.

Ar dudalen flaen fy llyfr, fe welir cofnod fel hyn: 'P. B. Williams, Llanrug' a dyna lofnod y Parchedig Peter Bayley Williams a oedd yn Rheithor yn Llanrug a Llanberis o 1792 hyd 1836.

Roedd Peter Bayley Williams yn fab i'r enwog Barchedig Peter Williams - a pha gartref yng Nghymru a fu heb gopi o 'Feibil Peter Williams' yn y blynyddoedd a fu?

Mae'r llyfr hwn wedi agor dau ddrws diddorol iawn i mi'n bersonol, oblegid dyma'r llyfr a'm cychwynnodd ar gasglu llyfrau o ddifri, a hefyd dyma'r llyfr a'm hysgogodd i chwilio i hanes bywyd a gwaith Peter Bayley Williams.

Buan iawn y darganfum nad oes fawr ddim wedi ei ysgrifennu amdano, dim ond cwta golofn yn y Bywgraffiadur a llu o gyfeiriadau ato mewn amryw o lyfrau - a'r rhai hynny fel arfer mewn nodiadau ar waelod y dudalen.

Wrth holi hwn a'r llall amdano roedd y mwyafrif wedi clywed amdano ond fawr neb yn gwybod rhyw lawer. Ac y mae hyn yn resyn garw oherwydd yr oedd yn ŵr diddorol dros ben a chanddo amryw ddiddordebau. Felly, nid oedd dim amdani ond gwneud tipyn o waith ymchwil.

* * *

DAETH yn Rheithor i blwyfi Llanrug a Llanberis yn 1792 ar ôl graddio yng Ngholeg yr Iesu yn Rhydychen a threulio ychydig o flynyddoedd mewn gofalaethau yn Lloegr.

Roedd ei gyfnod yma yn gyfnod cyffrous iawn er yr holl galedi a oedd yn bodoli ar y pryd. Yr oedd yn gyfnod o ddeffro llenyddol gyda Dafydd Ddu Eryri yn arwain a dysgu beirdd Arfon ac Eifionydd a gwelwyd deor ar 'gywion Dafydd Ddu' fel y'u gelwid, megis Gutyn Peris, Gwilym Peris, Hywel Eryri, Gwyndaf Eryri, Sion Llŷn a Ieuan Llŷn.

Bu Eisteddfod bwysig yn yr ardal yn 1799 pryd y cynhaliodd Iolo Morganwg Orsedd ar fryn Dinas Dinorwig ac urddo Dafydd Ddu, Ieuan Llŷn a Gutyn Peris yn 'feirdd Cadair Gwynedd'. Bu Iolo Morganwg yn aros gyda Bayley Williams am ychydig ddyddiau ond methodd ei argyhoeddi ynglŷn â'r Orsedd.

Dyma gyfnod hefyd a welodd gynnydd mawr ym mhoblogaeth yr ardal gyda Mr Assheton Smith yn dechrau'r berthynas uniongyrchol rhwng y Faenol a Chwarel Dinorwig, a nifer y gweithwyr yn cynyddu o 300 yn 1814 i tua 2000 erbyn 1848.

Roedd drws agored i bawb ym Mhantafon, cartref Peter Bayley Williams yn Llanrug fel y mae y casgliad o'i lythyrau yn dangos. Yr oedd bob amser yn barod i achub unrhyw gam ac i gynorthwyo ei blwyfolion, ond yr un pryd yn credu mewn cosb lle yr oedd hynny yn ddyledus.

* * *

ODDEUTU 1808 fe'i hapwyntiwyd yn Ustus Heddwch ac fe ymgymerodd â'r gwaith yma gyda brwdfrydedd ac arddeliad ac y mae ei lythyrau yn dangos fod ganddo ddaliadau cryf a phendant ac nid oedd ar un amser yn barod i gymryd ei ddylanwadu gan eraill fel yr ysgrifennodd unwaith at John Evans, Clarc yr Ustusiaid yng Nghaernarfon yn dywedyd fod si ar led ei fod ef (John Evans) yn rheoli'r ustusiaid, ac meddai: *'if this is suffered to go on I shall certainly write to Lord Bulkely and propose my resignation for I will not be the tool of any man.'*

Yr oedd ganddo ddiddordeb mawr mewn llysieueg fel y mae ei gopi o'r *'Welsh Botanology'* yn dangos. Mae'r llyfr yn frith o nodiadau o'i eiddo yn enwi planhigion ychwanegol yr oedd wedi dod o hyd iddynt yn ei filltir sgwâr yn Llanrug a Llanberis.

Roedd ganddo hefyd 'ardd wyllt' ym Mhantafon lle roedd yn tyfu llysiau ac iddynt werth meddyginiaethol ynghyd â phlanhigion eraill a gasglai yn y mynyddoedd.

Yn ei lawysgrif fe welir y feddyginiaeth hon at y 'gwaew meigryn - cymmer wraidd briallen meysudd a dail Cribau St. Ffraid a dod wraidd y Briallen yn gyntaf yn y ffroenau a dail Cribau St. Ffraid yn ôl a stopia y ffroenau bob dydd o'r wythnos'. Efallai yn wir fod y feddyginiaeth yn waeth na'r clwy!

Yr oedd yn weithgar iawn ym mywyd llenyddol ei gyfnod ac fe ysgrifennodd lu o erthyglau i gylchgronau megis Y Geirgrawn, Gwyliedydd, Yr Haul, Y Cambro Briton ac eraill.

Byddai hefyd yn ysgrifennu ar faterion amaethyddol a chymerodd ran amlwg yng Nghymdeithas Amaethyddol Sir Gaernarfon o'i dechreuad yn 1807.

* * *

YR OEDD yn adnabyddus fel hynafiaethwr a chynorthwyodd bobl fel Nicholas Carlisle a William Cathrall pan oeddynt hwy yn ysgrifennu am Ogledd Cymru. Bu hefyd yn crwydro'r Wyddfa gyda William Bingley fel y mae'n cydnabod yn ei lyfr *'Excursions in North Wales'* a cheir ynddo ddisgrifiad diddorol o'r ddau yn dringo Clogwyn Du'r Arddu i chwilio am blanhigion.

Fe ysgrifennodd lyfr ar Sir Gaernarfon sef *'A Tourist's Guide through the County of Caernarvon'* a gyhoeddwyd yn 1821.

Ysgrifennodd hefyd draethawd maith i'r Cymmrodorion ar *'An Historical Account of the Monasteries and Abbeys in Wales'*, ac fe ddyfarnwyd iddo fedal y Cymmrodorion am y gwaith hwn yn 1833 ac fe'i cyhoeddwyd ganddynt yn eu Trafodion yn 1843.

Cyfieithodd hefyd ddau o lyfrau Richard Baxter (1615-1691) i'r Gymraeg, sef 'Tragwyddol Orphwysfa'r Saint' a 'Galwad i'r Annychweledig' - y ddau yma wedi eu cyhoeddi ganddo yn 1825, ac fe welir nodyn yn ei ddyddiadur am Ddydd Llun, Chwefror 21: *'Finished my Translation of Baxter's saint's Everlasting Rest'.*

Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth Gymraeg a chasglodd lu o lawysgrifau ac fe adysgrifiodd lawer mwy ac y mae'r rhai hyn ar gadw yn awr ymysg casgliad Gwyneddon yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor.

Mae y rhan fwyaf o'i lythyrau yn ymwneud â Deddfau'r Tlodion a thrwyddynt hwy fe welir yn eglur galedi'r oes a hefyd fe welir Peter Bayley Williams fel gŵr a oedd yn mynnu tegwch i'w blwyfolion ac yn ymladd llawer i frwydr yn erbyn Goruchwylwyr 'dideimlad a chreulon iawn' fel y cyfeiriodd at un ohonynt.


**LLÊN LLŶN** Y Maes, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5HB.
Ffôn: Pwllheli (0758) 612907

AWDLAU Cadeiriol Detholedig y Ganrif Hon: 1900-25 117t Llys Eist. 1959 £3.50
1926-50 100t Llys Eist. 1953 ....£3.50
Y CERDDOR 21 rhifyn o Mawrth 1930 i Mehefin 1933 ....£9.00
Y CERDDOR newydd (gol. W. S. Gwynn Williams) Rhifyn Medi 1928 32t M £0.75
Y CWMWL; neu Gronfa o Wybodaeth. Cyf. 1, rhifynnau 1-12 192t Aberystwyth, 1843 ....£18.00
CYFROL deyrnged Syr Thomas Parry-Williams 164t Llys Eist. 1967 (arg 1) £7.50
CYFROL Deyrnged D. J. Williams (gol. J. Gwyn Griffiths) 168t + dar. Gomer, 1965 ....£4.00
DANIEL, J. (Rhabanian): Odlau Barddas 128t Pwllheli, 1888 ....£5.00
DAVIES, E. Tegla: Hunangofiant Tomi 108t Bangor, arg. newydd ....£1.75
EIFION Wyn: O Drum i Draeth 166t Llundain, 1929 ....£4.00
'GRONOVANTIA' – Gwaith Goronwy Owen, a Hanes Ei Fywyd 340t Llanrwst, 1860 ....£6.00
GRUFFYDD, W. J: Llenyddiaeth Cymru – Rhyddiaith 1540-1660 218t Wrecsam, 1926 ....£3.00
GWAITH Barddonol Sion Wyn o Eifion 120t Tremadog, 1861 ....£5.00
(a chopi blêr am .... £2.00)
GWYNFOR: Straeon 81t Aberystwyth, 1931 ....£2.50
GWŶR LLÊN (gol. Aneirin Talfan Davies) 268t Llundain, 1949 (arg. 2) ...£7.50
HINDER, Madge: Newid Ffedog 117t M Gomer, 1979 ....£2.00
HUGHES, John: Methodistiaeth Cymru 3 cyf. 1828t ½ lledr Gwrecsam, 1851-6 ....£18.00
HYNODION Dick Nancy (Rhuddenfab) 112t Wrecsam, d.d ....£2.50
JENKINS, David: Thomas Gwynn Jones 401t Gee, 1973 ....£6.00
JONES, John Gwilym: Y Dewis 80t Gee, 1942 .£5.50 (a chopi blêr am £2.50)
JONES, John Morris: Welsh Grammar – Historical & Comparative 477t Rhydychen 1930 ....£7.00
LEWIS, Saunders: Ysgrifau Dydd Mercher 112t Clwb Llyfrau, 1945 ....£2.75
LLYFR Emynau a Thonau MC 1929 (sol-ffa) Lledr (y math na fu erioed ar gyfyl buwch) ....£5.00
PRICHARD, Caradog: Canu Cynnar 92t Wrecsam, 1937 ....£2.50
PRICHARD, J. T. (Myfyrfab, Aberdaron): Awelon 56t M Dolgellau, d.d. ..£3.00
PRITCHARD, John: Hanes Yr Ysgol Sir Ym Mrynrefail, Arfon 203t Caernarfon, 1940 ....£4.50
....£3.00
ROBERTS, Ernest: Bargen Bywyd Fy Nhaid 77t Dryw, 1963 ....£2.50
ROBERTS, Kate: Ffair Gaeaf arg. 2 – 87t; arg. 4 – 115t Gee, 1942/1949 ....yr un
....£3.50
Stryd y Glep 94t Gee, 1950 (arg. 2) ....£4.00
Traed Mewn Cyffion 196t Aberystwyth, 1936 (arg. 1) ....£3.75
Tywyll Heno 97t Gee, 1962 (arg. 1) ....£5.50
Y Lôn Wen 154t Gee, 1960 (arg. 1) ....
ROBERTS, R. Alun: Welsh Home-Spun – Studies of Rural Wales 103t ....£10.00
Y Drenewydd, 1930 ....£7.50
RHYFEDDODAU Natur a Chelfyddyd 454t Bethesda, 1859 ....£3.25
STORIAU Radio (gol. T. Rowland Hughes) 127t Gomer, 1941 ....
Y TADAU Methodistaidd (J. M. Jones/W. Morgan) 2 gyf. 1008t Abertawe, ....£12.00
1895/7 ....
THOMAS, David: Hen Longau a Llongwyr Cymru (dwyieithog) 80t M Caerdydd, ....£6.00
1949 ....
THOMAS, Owen: Cofiant John Jones, Talsarn 1052t ½ lledr Wrecsam £10.00
WILLIAMS, D. D: Twm O'r Nant 87t M Bangor, 1911 ....£3.50
WILLIAMS, D. J: Storïau'r Tir Du 114t Aberystwyth, 1949 (arg. 1) ....£3.75
WILLIAMS, E. R. (Ianto): Odlau Lleyn 32t M Pwllheli, 1922 ....£2.50
WILLIAMS, Samuel: John Penry, 1563-1593 (dwyieithog) 79t M GPC, 1956 £3.00
ZIMMERN, Alfred E: My Impressions of Wales 44t M Llundain, 1931 ....£3.00

M – clawr meddal   Cludiad yn ychwanegol.